

Neuaddau Preswyl

Ein nod yw rhoi i fyfyrwyr y profiad gorau yn eu Neuaddau Preswyl trwy eu cadw'n ddiogel a'u cefnogi a'u hybu i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas gymunedol gyfartal a chyfrifol.

Profiadau myfyrwyr yn eu Neuaddau Preswyl yn aml yw profiadau pwysicaf eu bywyd addysgol. Mae creu amgylchedd addas i astudio, cyfleoedd cymdeithasol a byw cymunedol, wedi ei gefnogi gan ofal bugeiliol da, yn hanfodol bwysig.

Siarter Preswylwyr

Mae'r Siarter hwn yn nodi'n gyffredinol y gwasanaethau y mae'r Neuaddau Preswyl yn eu darparu i chi. Mae'r Siarter hefyd yn nodi eich cyfrifoldebau a'ch ymrwymadau chi, i'r Neuaddau Preswyl ac i'ch cyd-breswylwyr.

Nid yw'r Siarter hwn yn disodli'r Amodau Preswyl y mae'n rhaid i chi gytuno a hwy cyn dod i fyw i neuadd. Mae'r Amodau Preswyl i'w cael yn: <http://www.bangor.ac.uk/accommodation/essential.php.cy>

Cyn i chi ddod i'r Brifysgol:

- Byddwch yn cael gwybodaeth glir am wneud cais i fyw mewn Neuadd Breswyl, am y broses, dyddiadau cau derbyn ceisiadau a'r holl gostau.
- Os bydd eich cais yn llwyddiannus, unwaith y cynigir llety i chi byddwch yn cael gwybodaeth glir ar sut i dderbyn y cynnig, yn cynnwys dyddiadau cau a rhagdaliadau blaendal.
- Byddwch yn cael gwybodaeth glir am gyrraedd y Brifysgol ac am eich Neuadd Breswyl.

Yn y Neuaddau Preswyl gallwch ddisgwyl y canlynol gennym ni:

- Yn ystod cyfnod eich cytundeb byddwch yn cael llety glân a diogel sy'n cydymffurfio â Chôd Ymarfer UUK, a gofynion cyfredol iechyd a diogelwch, neu'n rhagori arnynt.
- Gwasanaeth cyfeillgar a fydd yn deg a chllir a rhoi gwerth am arian.
- Awyrgylch a fydd yn gydnaws ag astudio a heb sŵn afresymol, gwahaniaethu, aflonyddu neu fygwth.
- Gwaith trwsio a chynnal a chadw'n cael ei wneud yn effeithiol a chyn gynted â phosibl.
- Parch a phreifatrwydd, a rhybudd digonol am waith cynnal a chadw nad yw'n waith brys.
- Cymorth bob amser gan staff y Neuaddau, staff Diogelwch neu'r tîm Mentoriaid.
- Gofal bugeiliol gan y tîm Mentoriaid hyfforddedig.
- Cyfleusterau golchdy cymunedol.
- Ystafelloedd cyffredin.
- Glanhau manau cymunedol dan gytundeb lefel gwasanaeth eglur.
- Darparu gwasanaeth casglu post gydag oriau agor a ddangosir yn glir.
- Trefn benodol i ddelio â chwynion – gweler: <http://www.bangor.ac.uk/accommodation/essential.php.cy>

Yn ystod eich cyfnod preswyl byddwn yn disgwyl i chi gyflawni'r canlynol:

- Cadw at yr Amodau Preswyl a Rheoliadau'r Brifysgol.
- Rhoi ystyriaeth briodol i breswylwyr eraill a pheidio ag achosi unrhyw darfu di-alw amdano.
- Parchu hawliau ac iechyd a diogelwch preswylwyr eraill a staff.
- Gofalu'n briodol am allwedd ac/neu gardiau allwedd bob amser a rhoi gwybod am unrhyw golled i staff y Neuaddau cyn gynted â phosibl.
- Gofalu y caiff yr holl ffioedd sy'n ddyledus eu talu'n brydlon.
- Sicrhau hylendid a glanweithdra rhesymol mewn ceginau cymunedol ac ystafelloedd ymolchi, ac yn eich ystafell wely a'ch ystafell gawod eich hun.
- Bod yn gyfrifol am eich gwesteion bob amser a chofrestru unrhyw westeion sy'n aros dros nos fel y nodir yn yr amodau preswyl.
- Peidio â gwastraffu ynni a pharchu'r amgylchedd.